PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Aberystwyth University

Taro'r cydbwysedd yn iawn: cloriannu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg

Lewis, Huw; Royles, Elin

Publication date:
2017

Citation for published version (APA):
Lewis, H., & Royles, E. (2017). Taro'r cydbwysedd yn iawn: cloriannu cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Bil y Gymraeg. Prifysgol Aberystwyth | Aberystwyth University.

Document License
CC BY-NC-ND

General rights
Copyright and moral rights for the publications made accessible in the Aberystwyth Research Portal (the Institutional Repository) are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

• Users may download and print one copy of any publication from the Aberystwyth Research Portal for the purpose of private study or research.
• You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
• You may freely distribute the URL identifying the publication in the Aberystwyth Research Portal

Take down policy
If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

tel: +44 1970 62 2400
email: is@aber.ac.uk

Download date: 04. Dec. 2023

Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru
Centre for Welsh Politics and Society

Taro'r cydbwysedd yn iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

Cloriannu cynnwys Papur Gwyn Llywodraeth Cymru

Adroddiad ar seminar a gynhaliwyd yn
Adeilad y Pierhead, Bae Cardydd
29 Medi 2017

Paratowyd gan Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles

1872 Prifysgol Aberystwyth University

Cynnwys

Crynodeb	3
Cyflwyniad	5
Sylwadau cyffredinol	5
Rhan 1: Hybu'r Gymraeg	6
Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd	9
Rhan 3: Safonau'r Gymraeg	11
Rhan 4: Cwmpas y ddeddfwriaeth	14

Crynodeb

Cyffredinol

- Cyflwynwyd nifer o sylwadau oedd yn awgrymu bod lle i'r Llywodraeth roi mwy o ystyriaeth i sut mae elfennau gwahanol o'r gyfundrefn polisi a chynllunio iaith yng Nghymru yn gweithio gyda'i gilydd, ynghyd ag effaith debygol y ddeddfwriaeth arfaethedig ar hyn.

- Fel rhan o'r uchod, mae angen ystyried cyfraniad deublyg deddfwriaeth iaith: i) i greu trefniadau sefydliadol addas ar gyfer sbarduno twf yn y nifer sy'n siarad iaith leiafirfol a'r defnydd cymdeithasol ohoni; ond hefyd ii) i sefydlu cyfundrefn sy'n gwarantu cyfiawnder a chydraddoldeb sifig i'r sawl sy'n siarad yr iaith honno trwy eu galluogi i'w defnyddio mewn gwahanol beuoedd swyddogol.

- Mae aneglurder ac amwysedd ynglŷn ag oblygiadau y termau 'rheoleiddio' a 'hybu' wedi nodweddu'r drafodaeth ynghylch y Papur Gwyn ac mae gofyn gwahaniaethu yn fwy eglur rhwng nodweddion gwahanol hyn.

Rhan 1: Hybu

- Pe bai penderfyniad i gadw swydd y Comisiynydd Iaith ar ffurf debyg i'r model presennol, cytunwyd y byddai'n briodol sefydlu bod y swydd honno yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â rheoleiddio'r Safonau, ac y dylai llai o bwyslais gael ei roi gan y Comisiynydd ar weithgaredd sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Ystyriwyd bod trefniadau'r blynyddoedd diwethaf lle bu hybu defnydd cyffredinol o'r iaith yn rhan o swyddogaeth y Llywodraeth a'r Comisiynydd wedi creu amwysedd di-angen.

- Mynegwyd cefnogaeth gan rai i gynnig y Papur Gwyn y dylai un corff lled-braich ysgwyddo'r cyfrifoldebau rheoleiddio a hybu mewn perthynas â'r Gymraeg. Awgrymwyd bod profiad y gorffennol yn dangos bod modd i'r ddwy swyddogaeth gydorwedd yn esmwyth o fewn un corff. Fodd bynnag, i eraill, roedd y ffaith bod y swyddogaethau yma'n rhai gwahanol iawn o ran natur yn golygu ei bod felly'n briodol bod y cyfrifoldeb drostynt yn gorwedd gyda chyrff gwahanol.

Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

- Mynegwyd cefnogaeth gan rai i'r opsiwn o gyfuno swydd Comisiynydd unigol gyda bwrdd rheoli. Fodd bynnag, tueddai'r gefnogaeth hon i fod yn gysylltiedig â sefyllfa lle byddai'r Comisiynydd yn parhau i weithredu'n bennaf fel rheoleiddiwr ac y byddai'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn cael ei arwain gan gorff arall. Dadleuwyd bod cynnal sefyllfa lle bod unigolyn yn dal y swydd yn bwysig er mwyn i'r Comisiynydd fedru gweithredu fel eiriolwr clir.

- Cafwyd dadleuon hefyd o blaid y syniad o gomisiwn. Er enghraifft, dadleuwyd y byddai strwythur o'r fath yn ei gwneud yn haws i rannu swyddogaethau a chyfrifoldebau a hefyd sicrhau bod safbwyntiau gwahanol yn cael eu clywed wrth gymryd penderfyniadau strategol.

- Dadleuwyd mai mater pwysig sydd heb dderbyn sylw digonol yn y Papur Gwyn yw beth fydd natur y trefniadau sefydliadol ar gyfer y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru yn dilyn pasio'r Bil arfaethedig. Yn ogystal beirinadwyd y ffaith nad yw'r Papur Gwyn yn ystyried diwygio trefniadau atebolrwydd y Comisiynydd, a dylid ystyried newid y ffaith mai'r Llywodraeth ac nid y Cynulliad sy'n penodi deiliad y swydd.

Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

- Pwysleisiwyd mai dim ond am gyfnod byr iawn y mae'r Safonau wedi bod yn weithredol, ac yn sgil hynny, ei bod yn anodd dod i gasgliadau pendant ynglŷn â'u rhinweddau. Eto i gyd, os yw newid o ryw fath yn anochel, y farn oedd y dylid gwneud hynny gyda'r amcan o geisio adeiladu ar y drefn sydd eisoes mewn lle.

- Gyda golwg ar adeiladu ar seiliau'r drefn Safonau, cafwyd dadleuon dros roi mwy o ystyriaeth nag a geir yn y Papur Gwyn i rinweddau Opsiwn 5, sef nodi cyfres o hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg ar wyneb y Bil newydd. Honnwyd bod y papur yn sefydlu dewis pendant rhwng naill ai trefn sy'n seiliedig ar y Safonau, neu drefn amgen sy'n seiliedig ar sefydlu cyfres o hawliau. Awgrymwyd nad oedd rhaid dewis rhwng y naill opsiwn neu'r llall, ac yn wir, y byddai gwneud hynny'n wendid. Roedd consensws ar y pwynt hwn.

- Dadleuodd nifer bod y rhesymeg sy'n sail i'r bwriad i gyflwyno rhaniad rhwng Safonau a Dyletswyddau Cynllunio Ieithyddol yn aneglur. Os mai un o amcanion y Llywodraeth wrth gyflwyno Bil newydd yw ceisio symleiddio trefn y Safonau, awgrymwyd nad yw'n synhwyrol cyflwyno diwygiadau i wahaniaethu rhwng statws a natur gwahanol fathau o ddyletswyddau a chyflwyno terminoleg newydd.

- Mynegodd y mwyafrif o'r cyfranwyr anfodlonrwydd mawr â'r cynnig mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am y dasg o lunio a gosod y Safonau. Dadleuwyd mai problem bennaf y broses o greu a gosod Safonau yw'r arafwch sy'n deillio o natur glogyrnaidd y broses y bu'n rhaid ei dilyn.

Rhan 4: Cwmpas y ddeddfwriaeth

- Roedd cytundeb ynghylch cynnig y Papur Gwyn y dylid dileu'r cyfyngiadau ar gwmpas Mesur y Gymraeg 2011, a osodir gan Atodlenni 5 a 7, er mwyn adlewyrchu'r ehangu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ni fynegwyd gwrthwynebiad chwaith i'r cynnig i ddileu'r system gysylltiedig o restrau yn Atodlenni 6 a 8.

- Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y Papur Gwyn yn rhy amwys ynglŷn â sut a phryd y byddai camau yn cael ei cymryd i ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth, yn benodol yn achos

y sector breifat. Y pryder oedd fod y Papur Gwyn yn awgrymu y byddai'r trefniadau ar gyfer ehangu'r cwmpas yn gwbl ddibynnol ar fympwy Gweinidogion Cymru.

Taro'r cydbwysedd yn iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg

Cyflwyniad

1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnig gorolwg o seminar drefnwyd dan amodau Chatham House er mwyn trafod a chloriannu cynigion Papur Gwyn, 'Taro'r cydbwysedd yn iawn: cynigion ar gyfer Bil y Gymraeg' a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Awst ac sy'n'n destun ymgynghoriad cyhoeddus tan 31 Hydref 2017.

2. Trefnwyd y seminar gan Ganolfan Wleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru, Prifysgol Aberystwyth ar ddydd Gwener 29 Medi yn Adeilad y Pierhead ym Mae Caerdydd. Noddwyd y digwyddiad gan Elin Jones AC, Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol.

3. Rhoddodd y seminar sylw i bob un o adrannau'r Papur Gwyn ac isod adroddir ar y prif faterion godwyd yn ystod y drafodaeth.

Sylwadau cyffredinol

4. Cynigwyd amryw o sylwadau cyffredinol a oedd, ar y naill llaw, yn ymwneud â rhesymau Llywodraeth Cymru dros fynd ati i ddiwygio Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 mor fuan ers iddo ddod i rym, ac ar y llaw arall, â'r modd yr mae cynigion y Papur Gwyn yn gorwedd ochr yn ochr â chynnwys y strategaeth iaith genedlaethol Cymraeg 2050.

5. Dadleuwyd bod lle i roi mwy o ystyriaeth i sut mae gwahanol elfennau o'r gyfundrefn polisi a chynllunio iaith a gaiff ei chyflwyno yn y Papur Gwyn yn debygol o weithio gyda'i gilydd. Awgrymwyd bod cynnwys y Papur Gwyn yn ei hanfod yn ceisio ymateb i rai o'r problemau penodol y mae'r Llywodraeth wedi'u wynebu wrth geisio gweithredu Mesur 2011. Wrth ymgymryd â phroses o'r fath dadleuwyd bod lle i ystyried yn fwy systematig: i) beth yn union yw amcanion polisi'r Llywodraeth mewn perthynas â'r Gymraeg; ii) pa fath o rymoedd sydd eu hangen er mwyn cyrchu'r amcanion hynny; a iii) ble dylai'r grymoedd orwedd er mwyn cael eu gweithredu'n effeithiol.

6. Mynegwyd rhywfaint o gydymdeimlad â'r syniad bod angen gwahanol fath o ddeddfwriaeth i gydfynd ag amcanion y strategaeth iaith newydd, ond ar yr un pryd, nodwyd bod tuedd ar brydiau i amcanion penodol Cymraeg 2050 (yn arbennig y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr) orlywio naratif y Papur Gwyn. Un o gyfraniadau posib deddfwriaeth iaith yw creu trefniadau sefydliadol addas ar gyfer y gwaith o sbarduno twf yn y nifer o siaradwyr Cymraeg, a chynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r iaith. Fodd bynnag, mae ganddo hefyd rôl wrth sefydlu cyfundrefn sy'n gwarantu cyfiawnder a chydraddoldeb sifig i'r sawl sy'n siarad Cymraeg nawr ac yn dymuno defnyddio'r iaith mewn gwahanol beueodd swyddogol.

7. Ymhellach, wrth ystyried y targed o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, nodwyd y byddai datblygu'r Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn debygol o fod yn ddull gweithredu mwy effeithiol na chesio diwygio cynnwys Mesur 2011. Dadleuwyd bod tuedd mewn rhannau o'r Papur Gwyn wrth drafod rôl Llywodraeth

Cymru yng nghyd-destun addysg Gymraeg, i or-bwysleisio yr angen am waith hybu ac annog yn hytrach na sicrhau gweithrediad polisiau addysg sydd eisoes wedi'i mabwysiadu.

8. Yn olaf, dadleuwyd bod risg y bydd dyhead y Llywodraeth i geisio diwygio Mesur 2011 nawr yn arwain at gyfnod o drafod strwythurau, yn hytrach na chanolbwyntio ar weithredu strategaethau a pholisiau sydd eisoes mewn lle. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau na fydd unrhyw ddiwygiadau a gaiff eu cyflwyno gan y Bil arfaethedig yn arwain at oedi neu golli momentwm mewn perthynas â'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ers 2011. Dylai'r graddau y gellir 'adeiladu ar' neu 'datblygu ymhellach' fod yn ystyriaethau mwy allweddol wrth ddod i benderfyniadau ynglyn â chynnwys y Bil.

Rhan 1: Hybu'r Gymraeg

Hybu a rheoleiddio: sylwadau cyffredinol

9. Cafwyd amryw o sylwadau cyffredinol a oedd yn ymwneud â sut i ddehongli swyddogaethau hybu a rheoleiddio mewn perthynas â'r Gymraeg, ynghyd â sut i ddehongli'r berthynas rhyngddynt.

10. Dadleuwyd mai un o'r problemau sydd wedi tanseilio'r drafodaeth hyd yma yw na fu digon o eglurder na chytundeb ar beth yn union mae swyddogaethau rheoleiddio a hybu yn ei gynrychioli. Nodwyd bod hyn wedi bod yn arbennig o amlwg wrth edrych ar y sylwadau a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad ar weithrediad Mesur y Gymraeg 2011, a wnaeth fwydo i'r Papur Gwyn.[1] Yno gwelwyd amryw o randdeiliaid yn tueddu i ddefnyddio hybu i gynrychioli dull meddal a rheoleiddio fel dull mwy cyhyrog o ymwneud â sefydliadau a cheisio sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau trafodaeth gyhoeddus mwy cydlynol cytunwyd ei bod yn hanfodol ceisio sefydlu'n fwy pendant y gwahaniaeth rhwng y ddwy swyddogaeth. Yn sgil hynny, dadleuwyd ei bod yn bwysig bod y Papur Gwyn yn egluro ei fod yn dehongli rheoleiddio fel gweithgaredd sy'n ymwneud â gosod dyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar gyrff, ynghyd â monitro cydymffurfiaeth â'r dyletswyddau hyn, tra'i fod yn dehongli hybu'r Gymraeg fel gweithgaredd sy'n bennaf yn ymwneud ag annog mwy o ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac annog agweddau mwy cadarnhaol tuag ati (gw. pwyntiau 11-12).

11. Yn ogystal, dadleuwyd bod y dehongliad cyffredinol o reoleiddio fel swyddogaeth wedi esblygu dros y blynyddoedd diwethaf. Eglurwyd y by symudiad i ffwrdd o'r syniad traddodiadol o 'reoleiddio cul', sy'n ymwneud yn bennaf â monitro cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, tuag at ddehongliad amgen sy'n rhoi pwyslais hefyd ar geisio cefnogi cyrff a'u hannog i ddatblygu eu capasiti. Yn ôl y dehongliad hwn, dylai unrhyw dystiolaeth a gesglir gan reoleiddiwr trwy waith monitro gael ei ddefnyddio er mwyn datblygu rhaglenni cefnogi sy'n ymateb mewn modd rhagweithiol i wendidau ymhlith cyrff gwahanol.

[1] Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2017). *Paratoi ar gyfer Bil y Gymraeg, Galwad am dystiolaeth: crynodeb o'r ymatebion*: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170718-wl-bill-sor-cy.pdf

12. Dadleuwyd hefyd bod peryg i ladmeryddion ar ran ieithoedd lleiafrifol neilltuo gormod o amser ac egni yn trafod rhinweddau gwahanol drefniadau rheoleiddio. Gan mai ceisio sicrhau dyfodol tymor hir i'r ieithoedd hyn yw'r nod pennaf fel arfer, rhan gymharol fechan o'r 'jigso' cynllunio iaith yw'r gwaith o fonitro cydymffurfiaeth gwahanol gyrff â dyletswyddau statudol. Mae galw am roi llawer mwy o sylw i'r her o feithrin ymyrraethau sy'n ceisio sbarduno cynydd yn y nifer o siaradwyr ac sy'n ceisio hybu mwy o ddefnydd cymdeithasol.

13. O ran y swyddogaeth o hybu iaith, mynegwyd safbwyntiau gwahanol ynghylch gallu llywodraethau i weithredu yn y maes hwn. Credai rhai bod gan lywodraeth y potensial i arwain gweithgaredd hybu mewn modd effeithiol. Cyfeiriwyd, er enghraifft, at y ffaith ei bod yn gyffredin mewn sawl maes polisi i weld llywodraethau yn datblygu cynlluniau cyffredinol a chytundebu darparwyr allanol i weithredu ymyrraethau neu ymgyrchoedd penodol ar eu rhan. Cyfeiriwyd hefyd bod llywodraethau eisoes yn weithgar yn ceisio hybu newid ymddygiad ymysg y cyhoedd mewn meysydd polisi eraill, megis arferion byw a bwyta iach. Ymhellach, awgrymwyd bod modd i lywodraeth ddefnyddio ei gyfalaf a'i awdurdod sylweddol er mwyn sbarduno gweithgaredd gan sefydliadau pwysig eraill, ond bod hynny yn debygol o fod yn anos i gorff allanol na fyddai'n meddu ar yr un adnoddau. Yn ogystal, dadleuwyd nad yw'n glir os yw'r Llywodraeth wedi llawn fanteisio, hyd yn hyn, ar ei gapasiti i annog, cyfeirio a chydlynnu gweithgareddau'r ystod o gyrff sydd yn ymwneud â hybu'r Gymraeg, boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (h.y. lle bo elfennau o'u swyddogaethau craidd yn effeithio ar y Gymraeg).

14. I eraill, fodd bynnag, golyga'r ffaith nad oes disgwyl i weision sifil fod yn arbenigwyr mewn meysydd polisi penodol nad yw llywodraethau yn debygol o fod mewn sefyllfa i arwain ar y gwaith manwl o hybu defnydd iaith. Dadleuwyd bod llywodraeth a gweision sifil yn tueddu i ragori ar ddatblygu deddfwriaeth a strategaethau cyffredinol, ond nad yw eu perfformiad cystal pan ddaw i'r dasg o weithredu strategaethau. Y ddadl o'r perspectif hwn yw ei bod yn fuddiol ceisio sicrhau bod gweithgareddau hybu iaith yn cael eu harwain gan gyrff eraill sy'n nes at y bobl.

15. Yn fwy cyffredinol, dadleuwyd mai prin yw'r achosion rhyngwladol lle gellir casglu bod llywodraeth wedi arwain yn effeithiol ar weithgaredd hybu iaith, yn enwedig os ceisir gwneud cysylltiad uniongyrchol rhwng polisi llywodraeth a chynydd yn y defnydd dydd i ddydd o iaith leiafrifol.

Opsiynau ar gyfer trefnu hybu a rheoleiddio

16. Ystyriwyd rhinweddau'r pedwar opsiwn a gynigir yn y Papur Gwyn (gw. pwyntiau 61-110):

    - Opsiwn 1: Dim newid
    - Opsiwn 2: Asiantaeth weithredol er mwyn hybu'r Gymraeg
    - Opsiwn 3: Corff ar wahân i hybu'r Gymraeg

- Opsiwn 4: Un corff yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg a gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau

Opsiwn 1: Dim newid

17. Mynegwyd pryder sylweddol ynglŷn â'r ffaith y gallai cyflwyno newidiadau strwythurol sylweddol mor fuan yn dilyn creu swydd Comisiynydd y Gymraeg (a dim ond 9 mis ar ôl i drefn y Safonau ddod yn weithredol) arwain at golli momentwm a thanseilio'r cynnydd mewn datblygu arferion rheoleiddio newydd dros y blynyddoedd diwethaf. Dadleuwyd bod swyddogaeth y Comisiynydd fel rheoleiddiwr wedi datblygu'n sylweddol a bod perthynas wedi dechrau datblygu rhwng ei swyddfa â'r gwahanol gyrff sy'n dod o dan gwmpas Mesur y Gymraeg.

18. Ymhellach, dadleuwyd bod creu swydd Comisiynydd y Gymraeg wedi cyd-fynd â'r duedd a fu yng Nghymru o sefydlu Comisiynwyr â chyfrifoldeb dros feysydd gwahanol. Dadleuwyd bod pobol Cymru yn dechrau deall eu swyddogaethau ac y byddai newidiadau mewn perthynas â swydd Comisiynydd y Gymraeg yn medru bod yn niweidiol i'r modd y caiff y Gymraeg ei gweld mewn perthynas â meysydd rheoleiddio eraill.

19. Beirniadwyd bod y Papur Gwyn yn cloriannu'r trefniadau ar gyfer swydd Comisyinydd y Gymraeg gan ddibynnu'n unig ar gymariaethau eraill o fewn y Deyrnas Unedig. Dylid hefyd rhoi sylw i wersi y gellid eu dysgu o'r ystod o achosion rhyngwladol lle ceir Comisiynwyr unigol sy'n gyfrifol am reoleiddio materion yn ymwneud â statws cyhoeddus ieithoedd lleiafrifol fel y Gymraeg.

20. Pe bai penderfyniad i gadw swydd y Comisiynydd Iaith ar ffurf debyg i'r model presennol, cytunwyd y byddai'n briodol i sefydlu bod y swydd honno yn canolbwyntio'n bennaf ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â rheoleiddio'r Safonau, gyda llai o bwyslais gan y Comisiynydd ar weithgaredd sy'n ymwneud â hybu a hwyluso defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. Cytunwyd bod trefniadau'r blynyddoedd diwethaf lle bu hybu defnydd cyffredinol o'r iaith yn rhan o swyddogaeth y Llywodraeth a'r Comisiynydd wedi creu amwysedd di-angen.

Opsiwn 2 a 3: Asiantaethau amrywiol

21. Gan adlewyrchu rhai o'r pwyntiau cyffredinol a nodwyd uchod ynglŷn â'r angen i wahaniaethu'n fwy eglur rhwng swyddogaethau rheoleiddio a swyddogaethau hybu (gw 10), mynegodd rhai gefnogaeth i'r opsiynau a gyflwynir yn y Papur Gwyn a fyddai'n golygu rhannu'r cyfrifoldeb dros y swyddogaethau hyn rhwng y Comisiynydd ar y naill law ac asiantaeth gynllunio iaith ar y llaw arall. Gan bod y swyddogaethau yma'n rhai gwahanol iawn o ran natur, mynnwyd ei bod felly'n briodol bod y cyfrifoldeb drostynt yn gorwedd gyda chyrff gwahanol.

22. Gan adeiladu ar y dadleuon uchod ynglŷn â'r graddau y mae llywodraethau yn meddu ar y gallu i hybu defnydd iaith mewn modd effeithiol (gw. 14-15), dadleuwyd y byddai

asiantaeth lled-braich yn debygol o feddu ar fwy o hyblygrwydd o ran dulliau gweithredu ac felly'n medru ymateb yn haws i wahanol sefyllfaoedd. Nodwyd bod datblygu mentrau sydd â'r nod o hybu defnydd o iaith ar lawr gwlad yn aml yn galw am gyfeirio a chymryd ochr (e.e. datgan wrth rieni bod trosglwyddo'r Gymraeg i'w plant yn beth da i'w wneud) a bod cymryd cam o'r fath yn medru bod yn anodd i lywodraeth (e.e. byddai llywodraeth yn hapusach yn datgan neges fwy cyffredinol ynglŷn â manteision dwyieithrwydd neu amlieithrwydd).

23. Ar yr un pryd, dadleuwyd mai un peryg a allai godi wrth greu trefn sy'n cwmpasu dau gorff lled-braich/allanol, y naill yn gyfrifol am reoleiddio a'r llall yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg, oedd na fyddai mas critigol o swyddogion ar gael i sicrhau dau gorff effeithiol a phwerus. Yn ogystal, yn achos y syniad o greu asiantaeth hybu lled-braich, awgrymwyd bod angen ystyried y graddau y byddai peryg i'r corff gael ei weld fel endid gwan, gan y byddai ei rymoedd gwleidyddol a chyfreithiol yn bur gyfyngedig.

Opsiwn 4: Un corff yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg a rheoleiddio'r Safonau

24. Wrth drafod Opsiwn 4, cyfeiriwyd yn ôl at gyfnod Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gan y bu'r corff hwnnw hefyd yn gyfrifol am gyfuniad o swyddogaethau rheoleiddio a hybu. Dadleuodd rhai bod profiad y blynyddoedd hynny yn dangos bod modd i'r ddwy fath o swyddogaeth orwedd yn esmwyth o fewn un corff. Yn ogystal, dadleuwyd bod profiad y Bwrdd dros y blynyddoedd wedi tanlinellu cymaint mwy o sylw mae gofyn i gorff cynllunio iaith ei roi, o ddydd i ddydd, i waith sy'n ymwneud â hybu defnydd cymdeithasol o'r iaith, o'i gymharu â rheoleiddio cydymffurfiaeth sefydliadau â'i dyletswyddau statudol. Dadleuwyd taw nid yr angen i gyfuno'r ddwy fath o swyddogaeth oedd yr her fwyaf a wynebodd y Bwrdd, ond yn hytrach, y ffaith nad oedd ganddo unrhyw rym gorfodol pan roedd sefydliadau yn gwrthod cydymffurfio. Ar sail dadleuon o'r fath, awgrymwyd y gellid cefnogi Opsiwn 4.

25. Fodd bynnag, dadleuodd eraill y gallai cyfuno'r ddwy swyddogaeth arwain at dyndra mewnol, gyda chystadleuaeth o ran amser, adnoddau a chyllid rhwng gwaith hybu a gwaith rheoleiddio. Ymhellach, dadleuwyd bod edrych yn ôl dros gyfnod Bwrdd yr Iaith yn dangos bod trefniant sy'n cyfuno'r ddwy swyddogaeth yn medru arwain at sefyllfa lle gall fod yn anoddach i'r dinesydd sydd am fynnu ei hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg i gael cyfiawnder. Dadleuwyd bod y Bwrdd wedi meddu ar rymoedd gorfodol, yn sgil ei allu i gyfeirio cyrff a oedd yn gwrthod cydymffurfio at y gweinidog perthnasol, ond y gwnaed dewis bwriadol i beidio â gwneud hynny, gan fod ffocws y Bwrdd ar waith gwahanol. Tueddai'r sawl a oedd yn arddel y dadleuon hyn i ffafrio Opsiynau 2 neu 3.

Rhan 2: Llywodraethiant ac atebolrwydd

26. O ran y trefniadau llywodraethol gorau ar gyfer y corff hybu a rheoleiddio arfaethedig, mae'r Papur Gwyn yn cynnig 3 opsiwn ac yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio'r trydydd ohonynt:

- Opsiwn 1: Trosglwyddo adnoddau ychwanegol ar gyfer hybu'r iaith i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg
- Opsiwn 2: Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu
- Opsiwn 3: Comisiwn y Gymraeg

Opsiwn 1: Trosglwyddo adnoddau ychwanegol ar gyfer hybu'r iaith i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg

27. Fel y nodwyd uchod (gw. 15), pe bai penderfyniad i gadw swydd y Comisiynydd ar ffurf debyg i'r model presennol, y farn gyffredinol ymhlith y cyfrannwyr oedd y dylai'r swydd ganolbwyntio'n bennaf ar weithgaredd sy'n gysylltiedig â rheoleiddio'r Safonau. Yn sgil hynny, ni fynegwyd unrhyw gefnogaeth i'r syniad sy'n sail i'r opsiwn hwn, sef cadw model llywodraethiant presennol y Comisiynydd a throsglwyddo'r adnoddau a'r cyfrifoldeb ychwanegol ar gyfer hybu'r Gymraeg.

Opsiwn 2: Comisiynydd y Gymraeg gyda Bwrdd Llywodraethu

28. Mynegwyd cefnogaeth gan rai i'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, yn dilyn o'r pwynt uchod (gw. 22), tueddai'r gefnogaeth hon fod yn gysylltiedig â sefyllfa lle byddai'r Comisiynydd yn parhau i weithredu'n bennaf fel rheoleiddiwr ac y byddai'r gwaith o hybu'r Gymraeg yn cael ei arwain gan gorff arall. Dadleuwyd bod cynnal sefyllfa lle bod unigolyn penodol yn dal y swydd yn bwysig er mwyn i'r Comisiynydd fedru gweithredu fel eiriolwr clir. Ar yr un pryd, dadleuwyd bod cyfuno Comisiynydd unigol gyda bwrdd rheoli yn syniad da, gan y byddai strwythur o'r fath yn golygu bod modd herio neu ffrwyno'r Comisiynydd os oedd angen. Fodd bynnag, hyd yn oed wedi ychwanegu Bwrdd Rheoli, teimlai rhai y byddai'r pwyslais pennaf yn parhau i gael ei roi ar waith a phenderfyniadau un person a bod hyn yn risg.

Opsiwn 3: Comisiwn y Gymraeg

29. Cydnabuwyd bod y syniad o sefydlu Comisiwn yn hytrach na Chomisiynydd wedi'i ystyried yn gynnar yn y broses bolisi a arweiniodd at Fesur y Gymraeg 2011. Cyflwynwyd amryw o ddadleuon o blaid cynnwys yr opsiwn hwn yn y Bil arfaethedig. Er enghraifft, awgrymwyd y byddai strwythur comisiwn yn ei gwneud yn haws i rannu swyddogaethau a chyfrifoldebau a hefyd sicrhau bod safbwyntiau gwahanol yn cael eu clywed wrth gymryd penderfyniadau strategol. Awgrymwyd hefyd y byddai strwythur comisiwn yn ei gwneud yn haws i sicrhau cefnogaeth i'r swyddogaeth, gan na fyddai'n ddibynnol ar broffil un person. Gwrth-ddadl a gyflwynwyd oedd y byddai potensial i gomisiynwyr unigol gyda chyfrifoldeb am faes penodol fod yn rhy agored i gael eu dylanwadu gan grwpiau diddordeb penodol (e.e. sector breifat).

Materion llywodraethiant ac atebolrwydd allweddol sydd heb eu trafod yn y Papur Gwyn

30. Dadleuwyd mai mater pwysig sydd heb dderbyn sylw digonol yn y Papur Gwyn yw natur y trefniadau sefydliadol ar gyfer y Gymraeg o fewn Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd nid oes adran benodol o fewn y llywodraeth sy'n gyfrifol am y Gymraeg ac nid oes

swyddog o statws Cyfarwyddwr yn gyfrifol am bolisi mewn perthynas â'r iaith. O ran llywodraethiant polisi iaith, awgrymwyd bod angen meddwl mwy am statws y gweision sifil sy'n ymwneud â'r Gymraeg a goblygiadau hyn i'w perthynas â gweinidogion neu weision sifil mewn adrannau eraill o'r Llywodraeth. Byddai hyn yn berthnasol pa bynnag opsiwn o Ran 1 y Papur Gwyn y penderfynir ei fabwysiadu yn y pendraw. Yn wir, gallai'r mater yma fod hyd yn oed yn fwy fwy pwysig pe bai swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo allan o'r Llywodraeth, gan y gallai dylanwad Is-adran y Gymraeg gael ei leihau ymhellach yn sgil hynny (e.e. Rhan 1, opsiwn 2-4).

31. Mater arall sydd heb ei drafod yn y Papur Gwyn, ond un y dadleuwyd a ddylai dderbyn ystyriaeth lawnach wrth lunio'r Bil, yw trefniadau atebolrwydd presennol y Comisiynydd, ac yn benodol y ffaith mai'r Llywdoraeth sy'n penodi deiliad y swydd. Yn sgil swyddogaethau rheoleiddio Comisiynydd y Gymraeg (yn wahanol i Gomisiynwyr eraill Cymru sydd â mwy o rôl eirioli) byddai'n fwy priodol pe bai'r swydd yn un a benodir gan, ac sy'n atebol i'r, Cynulliad. Dadleuwyd y byddai hyn yn esgor ar drefniadu atebolrwydd mwy gwydn. Dadleuwyd hefyd y byddai dadleuon o'r fath yr un mor berthnasol pe aed ati i sefydlu Comisiwn yn hytrach na Chomisiynydd.

Rhan 3: Safonau'r Gymraeg

Ffurf y Safonau

32. O ran y cynigion ar gyfer diwygio ffurf a dull gweithredu presennol y Safonau, mae'r Papur Gwyn yn cynnig pump opsiwn gwahanol ac yn egluro bod Llywodraeth Cymru yn ffafrio Opsiwn 2 (gw. pwyntiau 147-161).

- Opsiwn 1: Dim newid.
- Opsiwn 2: Diwygio'r system bresennol (e.e. dileu rhai Safonau; mwy o sgôp i gyrff ddehongli sut i weithredu Safonau penodol; mwy o bwyslais ar wella dros amser).
- Opsiwn 3: Set o Safonau mwy cyffredinol yn y ddeddfwriaeth.
- Opsiwn 4: Cynlluniau eithrio wedi seilio ar set o Safonau mwy cyffredinol.
- Opsiwn 5: Nodi hawliau i unigolion yn y ddeddfwriaeth.

33. I ddechrau, pwysleisiwyd mai dim ond am gyfnod byr iawn y mae'r Safonau wedi bod yn weithredol, ac yn sgil hynny, ei bod yn anodd dod i unrhyw gasgliadau pendant ynglŷn a'u rhinweddau. Onid oes angen caniatáu mwy o amser cyn medru penderfynu beth yw cryfderau a gwendidau'r drefn?

34. Eto i gyd, os yw newid o ryw fath yn anochel, dadleuwyd yn gryf y dylid gwneud hynny gyda'r amcan o geisio adeiladu ar y drefn sydd eisoes mewn lle. Mynnwyd bod angen gochel rhag dim ond canolbwyntio ar yr anawsterau tybiedig sydd wedi codi wrth gyflwyno'r Safonau a bod tystiolaeth gynyddol bod y drefn newydd wedi arwain at ddatblygiadau cadarnhaol. Ar y naill llaw, nodwyd bod cynnydd wedi bod ym mharodrwydd gwahanol gyrff i ystyried hyd a lled eu hymrwymiadau mewn perthynas â'r Gymraeg (e.e. parodrwydd i nodi swyddi fel rhai lle bo'r Gymraeg yn hanfodol), ac ar

y llaw arall, nodwyd bod ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau y gellir eu derbyn trwy gyfrwng yr iaith ar gynnydd.

35. Gyda golwg ar adeiladu ar seiliau'r drefn Safonau, cafwyd dadleuon dros roi mwy o ystyriaeth nag a geir yn y Papur Gwyn i rinweddau Opsiwn 5, sef nodi cyfres o hawliau mewn perthynas â'r Gymraeg ar wyneb y Bil newydd. Honnwyd bod y papur yn sefydlu dewis pendant rhwng naill ai trefn sy'n seiliedig ar y Safonau, neu drefn amgen sy'n seiliedig ar sefydlu cyfres o hawliau. Awgrymwyd nad oedd rhaid dewis rhwng y naill opsiwn neu'r llall, ac yn wir, y byddai gwneud hynny'n wendid. Yn hytrach, dadleuwyd y dylid ystyried dechrau'r Bil gyda chyfres o hawliau craidd, penodol iawn, ar ei wyneb (e.e. yr hawl i ofal meithrin yn y Gymraeg a'r hawl i addysg Gymraeg) a fyddai'n cynrychioli isafswm o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gall unigolion yn rhesymol ei ddisgwyl ar draws Cymru. Yn ychwanegol, dadleuwyd y byddai modd i'r Bil gynnwys Safonau sy'n manylu ar ddyletswyddau cyrff amrywiol mewn perthynas â'r Gymraeg. Byddai potensial i weithrediad y rhain amrywio ar draws peuoedd gwahanol ac ar draws ardaloedd daearyddol o Gymru. Ar y cyfan, roedd consensws ymhlith pawb ar y pwyntiau hyn.

36. Dadleuwyd y byddai trefn debyg i'r uchod yn meddu ar nifer o ragoriaethau:

- Byddai cynnwys ystod o hawliau craidd ar wyneb y Bil yn cyfrannu at gynyddu eglurder ymhlith y cyhoedd ynglŷn â'r mathau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg y gellid yn rhesymol ei ddisgwyl ar draws Cymru, beth bynnag fo'r amgylchiadau.
- Tra bod cyd-destun ieithyddol cyfredol Cymru yn golygu y byddai'n rhaid cyfyngu'r hyn y gellir ei sefydlu fel hawl i gyfres o faterion sylfaenol a phenodol iawn, byddai'n gam gwerthfawr. Byddai'n cynnig sail y gellid adeiladu arno maes o law. Yn y dyfodol, byddai modd i ddeddfau eraill ychwanegu materion newydd i'r rhestr o hawliau iaith wrth i amgylchiadau newid, wrth i gapasiti sefydliadau ddatblygu, a hefyd wrth i ddisgwyliadau siaradwyr Cymraeg gynyddu.
- Byddai Bil sy'n cynnwys trefn y Safonau, yn ogystal â chyfres o hawliau craidd, yn osgoi cyfundrefn lle bo gwarantu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd swyddogol yn dibynnu'n llwyr ar barodrwydd unigolion i defnyddio'r llysoedd. Dyma fu un o'r dadleuon a gyflwynwyd yn nghyfnod 2010-11 fel rheswm dros beidio dilyn y trywydd hawliau.

37. Yn ychwanegol i'r pwyntiau uchod ynglŷn â'r berthynas bosib rhwng hawliau a Safonau o fewn y Bil, cyflwynwyd dadleuon egwyddorol pwysig ynglŷn â natur yr hyn y dylid ei gynnwys yn y ddeddfwriaeth gynradd o'i gymharu a'r rheoliadau dilynol. Os bydd y Bil newydd yn sefydlu hawliau i unigolion, neu'n gosod dyletswyddau ar gyrff, er mwyn gwarantu atebolrwydd a thryloywder dylid sicrhau bod y wybodaeth yma'n cael ei gynnwys ar wyneb y bil ei hun. Dadleuwyd mai gwendid amryw o'r opsiynau a drafodir yn y Papur Gwyn mewn perthynas â'r Safonau (h.y. Opsiynau 1-5, tt 39-42) yw eu bod yn rhagweld gadel llawer o'r manylion i'r rheoliadau is-ddeddfwriaethol. Ar y pwynt penodol hwn, nodwyd y dylai Llywodraeth Cymru gadw mewn cof mai un o'i phrif feirniadaethau o'r Bil Ymadael â'r Undeb Ewropeaiddyw yw bwriad Llywodraeth San Steffan i adael llawer o fanylion i reoliadau is-ddeddfwriaethol.

Dosbarthiadau Safonau'r Gymraeg

38. Trafodwyd cynnig y Papur Gwyn y dylid diwygio'r dosbarthiadau o Safonau, gan wahaniaethu rhwng y rhai sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd neu gyflogeion a'r rhai sy'n gosod dyletswyddau corfforaethol ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus (gw. pwyntiau 172-184).

39. Dadleuodd nifer bod y rhesymeg sy'n sail i'r awgrym hwn yn aneglur. Cydnabuwyd bod sail, ar lefel gysyniadol, i wahaniaethu rhwng natur gwahanol Safonau fel y gwna'r Papur Gwyn. Fodd bynnag, dadleuwyd nad oedd yn eglur beth fyddai'r fantais *ymarferol* a fyddai'n deillio o ffurfioli'r gwahaniaethu hwn yn y Bil. Wedi'r cyfan, dyletswyddau y mae'n rhaid i gyrff eu bodloni yw'r holl Safonau yn y pendraw. O ganlyniad, ac o ystyried mai un o amcanion y Llywodraeth wrth gyflwyno Bil newydd yw ceisio symleiddio ar y drefn y Safonau, honnwyd nad oedd yn synhwyrol cynnwys diwygiadau a fyddai'n gwahaniaethu rhwng statws a natur gwahanol fathau o ddyletswyddau ac a fyddai'n cyflwyno terminoleg newydd.

40. Mynegwyd amheuaeth hefyd ynglŷn â'r cynnig na ddylai pwerau gorfodi presennol y Comisiynydd fod yn weithredol mewn perthynas â'r 'dyletswyddau cynllunio iaith' arfaethedig. Cydnabuwyd bod angen cefnogi cyrff wrth iddynt ddatblygu'r gallu i ymateb yn effeithiol i ddyletswyddau megis creu cynllun i hybu'r Gymraeg yn eu hardal, neu gloriannu effaith eu polisïau ar ragolygon yr iaith. Fodd bynnag, dadleuwyd y dylid cynnig cefnogaeth o'r fath o fewn cyd-destun lle bo'n glir ei bod yn orfodol i gyrff ymgymryd â'r dyletswyddau hyn. Y pryder a fynegwyd yw y byddai cyrff yn llai tebygol o ymwneud yn ystyrlon â'u gwahanol ddyletswyddau cynllunio iaith corfforaethol yn absenoldeb unrhyw fframwaith gorfodol. Yn wir, nodwyd bod y syniad o osod rheidrwydd statudol ar gyrff cyhoeddus i gynllunio i'r dyfodol ac i asesu traweffaith eu polisïau ar gymdeithas ar yr agenda yn ehangach yn sgil cyflwyno Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

41. Mater arall a godwyd yn sgil y cyfeiriadau yn y Papur Gwyn at y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (pwynt 182), oedd perthynas y Bil arfaethedig â maes addysg. Teimlai rhai y dylid gochel rhag ceisio cynnwys elfennau yn ymwneud ag addysg Gymraeg yn y Bil. Dadleuwyd y byddai'n fwy synhwyrol cynnwys rhai cyfeiriadau at addysg ac yna defnyddio hynny fel sail i ddatblygu Bil arall maes o law sy'n ymwneud yn benodol â datblygu'r gyfundrefn addysg cyfrwng Cymraeg.

Gweithdrefnau ar gyfer llunio a gosod, gweithredu a gorfodi Safonau

42. Mynegodd y mwyafrif o'r cyfranwyr anfodlonrwydd mawr â'r cynnig mai Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am y dasg o lunio a gosod y Safonau (gw. pwyntiau 186-196). Dadleuwyd mai problem bennaf y broses o greu a gosod Safonau yw'r arafwch sy'n deillio o natur glogyrnaidd y broses y bu'n rhaid ei dilyn, fel y mae'r Papur Gwyn yn ei gydnabod (gw. pwynt 191). Mynnwyd bod gofyn symleiddio'r broses, gan ryddhau'r Comisiynydd (neu gorff rheoleiddio arall) o'r cyfyngiadau presennol.

43. Os mai symleiddio'r broses o greu a gosod y safonau yw'r amcan, dadleuwyd nad oedd yn glir pam fod galw am drosglwyddo'r cyfrifoldeb i ddwylo'r Llywodraeth. Mynnwyd na fyddai hynny yn ei hun yn arwain at drefn sy'n gweithredu'n fwy effeithiol. Yn wir, awgrymodd rhai cyfranwyr bod ymwneud y Llywodraeth â'r broses hyd yma wedi ychwanegu at yr arafwch. Codwyd cwestiynau hefyd ynglŷn â'r graddau y byddai gan Is-Adran y Gymraeg y capasiti, boed o ran niferoedd staff neu brofiad, i weinyddu'r gwaith o greu a gosod y Safonau yn effeithiol.

44. Yn ychwanegol i'r uchod, dadleuwyd nad oedd y Papur Gwyn yn cynnig ateb boddhaol i'r cwestiwn o sut yn ymarferol y byddai modd i Lywodraeth Cymru osod safonau ar ei hun mewn modd teg a thryloyw a bod hon yn broblem sylfaenol allai danseilio hygrededd y gyfundrefn Safonau. Honnwyd nad oedd y cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfrannu at y broses o osod Safonau ar gyfer y Llywodraeth yn realistig, gan nad oedd yn eglur beth yn union fyddai sail y weithdrefn i ganiatáu i hyn i ddigwydd

45. Rhoddwyd sylw hefyd i'r newidiadau a gynigir yn y Papur Gwyn i'r drefn gwyno a gyflwynwyd gan Fesur y Gymraeg 2011 (gw. pwyntiau 208-223). Nododd amryw o gyfrannwr eu pryder y byddai diwygio'r drefn fel bod rhaid cyflwyno cwyn i'r corff perthnasol i ddechrau, a bod ond modd mynd at y Comisiynydd/Comisiwn maes o law, ar ôl i'r mater gael ei ystyried gan y corff, yn ymddangos fel cam yn ôl. Mynnwyd bod y sefyllfa bresennol, lle gellir cyflwyno cwyn i'r ddau le ar yr un pryd wedi grymuso siaradwyr Cymraeg, ac wedi gwneud y dasg o gwyno am ddiffyg gwasanaeth Cymraeg yn fwy hwylus. Pwynt cysylltiedig yw bod trefniant sy'n caniatáu i reoleiddiwr dderbyn pob math o gwynion – rhai bach a mawr; rhai sy'n derbyn sylw teilwng gan gorff a rhai sy'n cael eu hanwybyddu'n llwyr – yn medru bod o fantais. Golyga bod modd i'r rheoleiddiwr gadw gorolwg trylwyr o'r sefyllfa o fewn ei faes cyfrifoldeb, gan alluogi adnabod tueddiadau problematig a mwy systemig wrth iddynt ddatblygu a darparu arweiniad i sector mewn ymateb.

46. Roedd cydnabyddiaeth bod y weithdrefn bresennol ar gyfer ymchwiliadau gan y Comisiynydd yn rhy hir a chlogyrnaidd a bod lle i'w symleiddio ac ystwytho. Fodd bynnag, awgrymwyd nad oedd angen newid sut a phryd y gall unigolion gyflwyno eu cwynion er mwyn cyflawni hyn. Yn ogystal, mynegwyd pryder gan rai cyfranwyr ynglŷn â beth fyddai goblygiadau cynnig y Papur Gwyn y dylai cwynion groesi trothwy o ddifrifoldeb cyn bod modd i'r Comisiynydd/ Comisiwn gychwyn ymchwiliad. Roedd rhai yn teimlo y byddai cyfeiriad o'r fath yn y Bil arfaethedig yn debygol o arwain at drefniadau a fyddai'n ffrwyno'n ormodol ar ymreolaeth y Comisiynydd/ Comisiwn.

Rhan 4: Cwmpas y ddeddfwriaeth

47. Roedd cytundeb ynghylch cynnig y Papur Gwyn y dylid dileu'r cyfyngiadau ar gwmpas Mesur y Gymraeg 2011, a osodir gan Atodlenni 5 a 7, er mwyn adlewyrchu'r ehangu a fu ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Yn dilyn o hynny, ni fynegwyd gwrthwynebiad i'r cynnig i ddileu'r sustem gysylltiedig o restrau yn Atodlenni 6 a 8. Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth i'r egwyddor a gaiff ei gynnig yn y Papur Gwyn, sef y dylai bod gan Lywodraeth Cymru y gallu i gynnig, a bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y gallu i

gymeradwyo, gwneud pob math o gorff yn ddarostyngedig i ofynion deddfwriaeth iaith (gw. pwynt 245).

48. Ar yr un pryd, roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y Papur Gwyn yn rhy amwys ynglŷn â sut a phryd y byddai camau yn cael ei cymryd i ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth, yn benodol yn achos y sector breifat. Noda'r Papur Gwyn y bydd 'Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i ystyried priodoldeb ac effeithiolrwydd tebygol dod a chyrff neu sectorau busnes preifat newydd o fewn system y Safonau'. (gw. pwynt 246). Pryder rhai oedd fod y datganiad yn awgrymu y byddai trefniadau i ehangu cwmpas y ddeddfwriaeth yn gwbl ddibynnol ar fympwy Gweinidogion Cymru. Derbyniwyd na fyddai'n ymarferol cynnwys y sector breifat yn ei gyfanrwydd yn syth, ac y byddai'n rhaid wrth broses a fyddai'n ymestyn i wahanol sectorau dros amser. Fodd bynnag, dadleuwyd y byddai'n briodol i'r Bil arfaethedig enwi sectorau cyffredinol ac amlinellu amserlen ar gyfer proses o'u cynnwys, yn enwedig yn achos rhai o'r sectorau mawr sydd wedi bod yn destun trafodaeth ddiweddar, er enghraifft banciau, archfarchnadoedd a chwmnïau telegyfathrebu.